



CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau f'ymgysylltiad â Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd (Hitachi-GE), y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Parti Gwneud Cais neu'r Parti Ymgeisio (RP), ynghylch agweddau diogelwch Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU (ABWR y DU), a gynhaliwyd fel rhan o Gam 2 Aseiad Dyluniad Generig (GDA) y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR).

Mae'r broses GDA yn galw am aseiad gam wrth gam o gyflwyniad y Parti Gwneud Cais ar ddiogelwch, gyda'r aseidiadau'n mynd yn gynyddol fanylach fel yr â'r prosiect yn ei flaen. Trosolwg yw Cam 2 GDA, yn unol â threfn reoleiddiol Prydain Fawr, o ba mor dderbyniol yw sylfeini'r dyluniad, yn cynnwys adolygiad o brif hawliadau diogelwch niwclear, diogeledd niwclear a diogelwch amgylcheddol gyda'r nod o ganfod unrhyw ddiffygion sylfaenol o ran diogelwch a diogeledd allai rwystro'r dyluniad arfaethedig rhag cael ei drwyddedu ym Mhrydain Fawr.

Ffocws cychwynnol yr ymgysylltiad yn ystod Cam 2 oedd sicrhau bod gan y Parti Gwneud Cais ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r ONR ar gyfer cyflwyniadau'n ymwneud â diogelwch a'r fethodoleg angenrheidiol i ymgymryd â gwaith Adnabod Ardal Allweddol (VIA). Hefyd, rhoddodd Cam 2 y GDA gyfle i'r Parti Gwneud Cais ddisgrifio trosolwg lefel uchel ar ddyluniad, systemau a gosodiad cyffredinol ABWR y DU.

Drwy gydol Cam 2 GDA, mae'r ONR wedi parhau i ymgysylltu â'r Parti Gwneud Cais i fynd ymlaen gyda'r ardaloedd a ganfuwyd yng Ngham 1 ynglŷn â diogelu Gwybodaeth Niwclear Sensitif (SNI) i sicrhau bod gan y Parti Gwneud Cais y trefniadau diogelwch angenrheidiol yn eu lle i gydymffurfio â'r gofynion diogelwch y manylir arnynt yn Fframwaith Polisi Diogelwch HMG. I'r diben hwn, mae'r Parti Gwneud Cais wedi ymgysylltu ag Arolygwyr Diogelwch Niwclear yr ONR yn rheolaidd ar faterion personél a diogelwch gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â deddfwriaeth y DU.

Agwedd bwysig o'm gwaith oedd aseiad o fframwaith y Parti Gwneud Cais yn caniatáu iddo gynnal VAI gan ddefnyddio Bygythiad ar Sail Dyluniad (DBT) y DU y cyfeirir ato fel y Tybiaethau Galluoedd (Cynllunio) Maleisus Diwydiannau Niwclear (NIMCA). Roedd angen i'r fframwaith gymryd i ystyriaeth bod gan y ddogfen gafeat cenedlaethol ac ni ellir ei rhyddhau i ddinasyddion nad ydynt o'r DU. Mae'r Parti Gwneud Cais wedi rhoi mecanwaith effeithiol yn ei lle, yn defnyddio contractwyr, i ganiatáu i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

Yn ystod Cam 2, rwyf wedi canolbwyntio ar ddod yn gyfarwydd â thechnoleg ABWR y DU, dyluniad cyffredinol, athroniaeth ar gyfer rheoli safle a gorniferoedd. Maes allweddol hefyd oedd asesu methodoleg y Parti Gwneud Cais ar gyfer Adnabyddiaeth Ardal Allweddol i sicrhau y mabwysiadir ymagwedd gadarn fydd yn gallu adnabod y strwythurau, systemau a chydannau hynny sydd angen eu hamddiffyn rhag gweithredoedd difrodi posibl.

Y safonau a ddefnyddiwyd gennyf i farnu pa mor ddigonol yw cyflwyniadau'r Parti Gwneud Cais ym maes diogelwch yn bennaf yw Canllawiau Asesu Technegol yr ONR (TAG) CNS-TAST-GD-007 – Canllaw ar yr Aseiad Diogelwch ar Ddyluniadau Adweithydd Niwclear Newydd Generig a CNS-TAST-GD-005 – Canllaw ar Sut i Asesu Digonolrwydd Cyflwyniad VAI.

Mae fy ngwaith GDA Cam 2 wedi cynnwys ymgysylltu'n barhaus â'r Parti Gwneud Cais ar ffurf gweithdai cyfnewid technegol a chyfarfodydd i fesur cynnydd. Mae yna ffocws cynyddol wedi bod ar fethodoleg VAI gyda nifer o gyfnewidiau gwybodaeth ac adolygu cyflwyniadau ar fethodoleg. Canlyniad Cam 2 fydd cynhyrchu Adroddiad Diogelwch Rhagarweiniol, sydd i'w gyflwyno ar ddiwedd Cam 2 a chyn dechrau Cam 3. Dylai hwn gynnwys methodoleg VAI y cytunwyd arno, sy'n dderbyniol gan yr ONR.

Yn ystod f'aseiad Cam 2 GDA ABWR y DU rwyf wedi cael ymateb y Parti Gwneud Cais i'r adborth a roddwyd yn galonogol iawn a'i ymdrechion i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch y DU yn rhagorol, yn enwedig o ystyried bod gweithdrefnau diogelwch y DU yn

faes cymharol newydd i'r Parti Gwneud Cais. Mae'r Parti Gwneud Cais wedi mabwysiadu dull pragmatig o sicrhau y cyrhaeddir y nodau ac wedi dangos dealltwriaeth o gyfyngiadau ar argaeledd peth gwybodaeth sensitif yn genedlaethol.

Yn gyffredinol, ni welaf unrhyw reswm, ar sail diogelwch, pam na ddylai ABWR y DU symud ymlaen i Gam 3 y broses GDA.